Department for Environment Food & Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Seacole Building 2
Marsham Street
SW1P 4DF

Ff: 03459 335577
helpline@defra.gov.uk
www.gov.uk/defra

**Dyddiad: 10 Chwefror 2026**

Annwyl Ymgynghorai,

# Ymgynghoriad ar Gynllun Rheoli Pysgodfeydd (FMP) arfaethedig Pelagig y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel

Ysgrifennaf atoch i wahodd eich safbwyntiau ar Gynllun Rheoli Pysgodfeydd Pelagig y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel a'i Adroddiad Amgylcheddol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i chi helpu i ffurfio a dylanwadu ar ddyfodol polisi rheoli rhywogaethau Pelagig y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel yng Nghymru a Lloegr, ac mae'n ychwanegu at ymgysylltiad blaenorol â'r diwydiant.

Mae tair rhan i'r arolwg ymgynghori:

1. Manylion personol a chyfrinachedd (gofynnol)
2. Cwestiynau ar yr FMP, a'r Adroddiad Amgylcheddol
3. Adborth ymgyngoreion ar yr Arolwg Ar-lein (gofynnol)

Bydd angen i chi ymateb i'r cwestiynau rydych eisiau eu hateb yn unig. Mae cymysgedd o gwestiynau cyffredinol a phenodol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r holl ymatebwyr lenwi'r adrannau 'Adborth Ymgyngoreion ar yr Arolwg Ar-lein' a 'manylion personol a chyfrinachedd' gofynnol cyn y gallwch gyflwyno'ch ymateb i'r arolwg ar-lein. Croesawn unrhyw wybodaeth a thystiolaeth ychwanegol i gefnogi'r gwaith hwn – gallwch ei chyflwyno'n uniongyrchol trwy FMPconsultations@defra.gov.uk.

Mae'r dogfennau canlynol ar gael ar Citizen Space
- Dogfen ymgynghori
- FMP Pelagig arfaethedig y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel

Positive About Disabled People

- Adroddiad Amgylcheddol yr FMP
- Adroddiad ymgysylltu
- Asesiad Effaith De-minimis
- Crynodeb o gyngor Cyrff Cadwraeth Natur Statudol

## Ymatebion

I gyflwyno'ch ymateb i'r ymgynghoriad, llenwch yr holiadur ymgynghori a ddarperir trwy Citizen Space (offeryn ymgynghori ar-lein yw Citizen Space). Os oes arnoch angen copi o'r ymgynghoriad, cysylltwch â ni trwy FMPconsultations@defra.gov.uk.

Gellir anfon ymatebion, gwybodaeth ychwanegol, neu ddogfennau at:

Ymgynghoriad – Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Pelagig y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel
Y Tîm FMP – Morol a Physgodfeydd
Adeilad Seacole, 2 Marsham St
Llundain
SW1P 4DF

Dylid derbyn ymatebion erbyn 23:59 ar 5 Mai 2026.

Yn gywir,

Y Rhaglen FMP
Cyfarwyddiaeth Morol a Physgodfeydd Defra

FMPs@defra.gov.uk